**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol**
**Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/130/2024

Sarah Murphy, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Mai 2024

Annwyl Sarah

**Cywiriadau i offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu gadarnhaol ddrafft**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 23 Ebrill, a'ch dymuniadau caredig. Mae rhaglen lawn o ddeddfwriaeth yn wynebu'r Llywodraeth, ac rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â chi a pharhau i ymwneud â'r Pwyllgor.

Yn eich llythyr rydych yn nodi bod y Pwyllgor wedi deall bod fy ngohebiaeth flaenorol yn dweud y byddai'r Llywodraeth, os oedd am wneud mân newidiadau i offerynnau cadarnhaol drafft, yn cymhwyso'r un meini prawf â'r Cofrestrydd OS o ran y math o gywiriadau a oedd i'w gwneud.

Yn fy llythyr dyddiedig 18 Ionawr 2023 eglurais fod dau bwynt pryd y gellid gwneud cywiriadau i offerynnau: cywiro cyn gwneud (h.y. cyn i'r Ysgrifennydd Cabinet neu'r Gweinidog perthnasol wneud yr offeryn statudol) a chywiro wrth gyhoeddi (neu'n fwy penodol, cywiro fel rhan o'r broses gofrestru). Yn yr achos olaf, sy'n digwydd wrth gwrs ar ôl i'r offeryn gael ei wneud, mae'n cyd-fynd â pharagraff 4.7.13 o *Statutory Instrument Practice:* os yw'r cywiriad: "*…in the nature of something that could be covered by a correction slip... this can be remedied".*

O ran cywiro cyn gwneud, roedd fy llythyr yn nodi (gan ychwanegu'r pwyslais):

> *Os ystyrir bod y cywiriad yn un y gellir ymdrin ag ef drwy slip cywiro...* ***neu os yw'n fater y mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i'w gywiro cyn gwneud yr OS*** *– er enghraifft pan fydd y Senedd yn ystyried OS sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol ddrafft – yna caiff yr OS drafft ei gywiro cyn ei gyflwyno ar gyfer ei wneud.*

Yn yr un llythyr nodais hefyd (gan ychwanegu'r pwyslais unwaith eto):

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

> *Ar y cyfan, os yw’r camgymeriad yn un y gellid defnyddio slip cywiro i’w gywiro, yna byddai’n well gennym ymdrin â hynny drwy ei gywiro wrth (h.y. cyn) ei wneud.* ***Os yw’n fater mân iawn, ond heb fod yn un a fyddai’n addas ar gyfer slip cywiro, o angenrheidrwydd, yna efallai y byddwn hefyd yn ceisio ymdrin â’r mater hwn wrth (h.y. cyn) ei wneud.***

O ran eich ail bwynt, rydym yn glir na fyddem yn ceisio gwneud newidiadau o sylwedd fel rhan o’r broses ‘cywiro cyn gwneud’. Gan gyfeirio eto at fy llythyr dyddiedig 18 Ionawr 2023, nodais:

> *… byddwn naill ai’n ceisio tynnu’r offeryn yn ôl a’i ailosod, neu os nad oes digon o amser ar gyfer hynny, efallai y byddwn yn ymrwymo i gyflwyno offeryn diwygio… Yn yr achosion hyn bydd bob amser yn well gennym gywiro’r offeryn drafft a’i ailosod gerbron y Senedd.*

Gan fod eich llythyr yn cyfeirio at *Reoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024* rwy’n anfon copi o’r ateb hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General